

## Tasg 1

# Goleuni'r Gogledd

### Tasgau darllen a deall

1. Lluniwch **ddiagram** i ddangos eich bod yn deall sut mae Goleuni'r Gogledd yn cael ei greu. Bydd angen i chi ailddarllen rhannau **Yr haul** a **Maes magnetig y Ddaear**.

Labelwch y diagram â'r canlynol:

- Yr Haul
- Y Ddaear
- atomau hydrogen
- ymasiad niwclear
- gronynnau
- fflach solar atmosffer y Ddaear
- maes magnetig y Ddaear
- atomau ocsigen a hydrogen
- Goleuni'r gogledd

2. Dewiswch y geiriau cywir i'w hysgrifennu wrth y diffiniadau. Dyma'r geiriau:

digwmwl	cyhydedd	llenni	pegwn	anarferol	llygredd golau
---------	----------	--------	-------	-----------	----------------

i)	mae'n amhosbil gweld y sêr mewn tref oherwydd hwn	
ii)	heb gymylau	
iii)	llinell ddychmygol rhwng hanner gogleddol a hanner deheuol y Ddaear	
iv)	darnau o ddefnydd i'w hongian dros ffenestr	
v)	un o ddau bwynt lle mae llinellau grym maes magnetig y Ddaear yn fertigol	
vi)	gwahanol i'r hyn sy'n digwydd fel arfer	

Ysgrifennwch dair brawddeg gan ddefnyddio rhai o'r geirau hyn.

i)	
ii)	
iii)	

3. Dewiswch dair ffaith rydych chi wedi’u dysgu o’r darn cyntaf.  
(nid y darn: **Chwedloniaeth Goleuni’r Gogledd**)

a)	
b)	
c)	

4. Edrychwch ar y gair ‘gwrthdaro’. Beth yw’r ddwy elfen sydd ynddo? Beth sy’n digwydd i’r ail elfen?

..... a .....

Chwiliwch am **chwe** gair araill sydd â’r elfen ‘gwrth-’ ynddyn nhw.

a)	
b)	
c)	
ch)	
d)	
dd)	

Rhowch dri o’r geiriau hyn mewn brawddegau:

a)	
b)	
c)	